Y CRIW
Mentrus
Cystadleuaeth Ysgolion Cynradd



Cyfnod Sylfaen

Gweithgaredd 11:
Sut wnaethon ni?

Amcan dysgu

Galluogi disgyblion i adolygu llwyddiant eu gweithgaredd menter.

Nodweddion Entrepreneuriaeth

Agwedd

- Hunan-hyder

Cysylltiadau

- Cyfathrebu
- Gweithio gyda phobl eraill
- Negodi, perswadio a dylanwadu

Gweithgareddau dysgu

Trafodwch gyda'r disgyblion ganlyniadau eu prosiect menter.

- "Pa mor lwyddiannus oedden ni ?"
- "Faint o gynhyrchion ydyn ni wedi eu gwerthu?"
- "Faint o elw wnaethon ni?"
- "Beth wnaethon ni ddysgu?"
- "Beth wnaethon ni ei fwynhau?"
- "Beth fydden ni'n ei newid/gwella am y tro nesaf?"

Cyfle am sylwadau/ asesu gan gymheiriaid.

Gan ddefnyddio'r ffotograffau a gafodd eu tynnu drwy gydol y prosiect menter, mae'r disgyblion yn creu cyflwyniad Y Criw Mentrus am eu prosiect menter i rannu eu canfyddiadau â'r dosbarth, yr ysgol, rhieni ac ati.

Gweithgaredd 11:
Sut wnaethon ni?

Cyfnod Sylfaen

Canlyniad dysgu
Bydd y disgyblion yn gallu myfyrio ar eu menter a'i werthuso.

Adnoddau mae eu hangen
- TGCh

Cysylltiadau â'r cwricwlwm

1. Fframwaith Cyfnod Sylfaen ar gyfer Dysgu Plant

Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol
- Datblygu ymwybyddiaeth o beth maen nhw'n ei wneud yn dda a deall sut gallan nhw wella eu dysgu a defnyddio adborth i wella eu gwaith.
- Gwerthfawrogi dysgu, llwyddiant a chyflawniadau eu hunain a phobl eraill.

2. Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd

Llythrennedd – Llafaredd ar draws y cwricwlwm
- Cydweithredu a thrafod.

Rhifedd – Defnyddio sgiliau rhif
- Dehongli gwybodaeth sy'n cael ei chyflwyno mewn siartiau a diagramau a dod i gasgliadau priodol.